

# Glas

Bwletin misol  
*Llên*  
natur  
Rhif 176  
Hydref 2022

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Cyhoeddir **Glas** gan **Gymdeithas Edward Llwyd**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia  
Cysylltwch â ni trwy [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)



## Atgofion fferm Plas Isaf ④

**Atgofion Dr Gareth Howells o'i ymweliadau gwyliau fel bachgen yn y 1950au â fferm Plas Isaf, Llanbedr Dyffryn Clwyd. Cyn ei ymddeoliad roedd Gareth yn Ddirprwy Swyddog Rhanbarthol y Cyngor Gwarchod Natur. Mae'n destament byw gan fachgen sylwgar, deallus a mymryn yn ddiniwed wedi ei ysgrifennu mewn Saesneg coeth a gafaelgar.**

### The farm crops

The 80 acres was divided into 10 fields. All the fields had names, of which I can recall Cae'r Efail as it was near the smithy, Cae'r Eglwys near the Church and Cae'r Boncyn which had a small rocky outcrop in the middle, this was the field which had a WW2 pillbox on its roadside edge which commanded views along the main road.



Fig 8 Tea time during the hay harvest. Aunty Mary and me at one end. Lloyd, who operated the baler between William Owen and Tecwyn. Also Mrs Speehley, a neighbour's wife and daughter, while her husband took the photo and also Roy hoping for scraps

The fields were rotated with different crops:

- Pasture for stock grazing
- Hay
- Cereals including wheat, barley and oats
- Fodder crops mainly mangels and kale/rape for winter fodder

The hay crops were cut with a mower with reciprocating blades, originally horse-drawn, but when the tractor arrived, the shafts were removed and replaced with a towbar. The cutting blades were sharpened with a file before starting, if any were damaged they could be bought from the ironmongers halfway down Clwyd Street in Ruthin. The mower had a seat which I sometimes took over from William Owen while Tecwyn drove and I had to operate a lever to raise the cutter bar at sharp turns and when reversing took place. It was while sitting on this seat one year that I found that on one side of the crop that I sneezed on each round and realised that this was due to the wind blowing over the cutter bar towards me carrying pollen and this was my first experience of hay fever. The cut hay was turned by hand to dry when it was loaded by pikel (as pitchforks were called) on to the waggon and taken to the stationary baler near one side of the field powered with a belt from a tractor.

The baler bound the bales with wire and they were compressed very hard so that they were extremely heavy and could not be lifted without a hook driven into the bale, ( a metal hook with a wooden handle) usually with one person with a hook at each end. They were then loaded onto the cart and taken back to a barn. Hay making involved a lot of work and people used to come to help, including neighbours if they were not busy with their own hay, sometimes local residents and children. For several years a man called John Davey who was swarthy and looked like a tramp and used to turn up at local harvests presumably being rewarded for his help.

### Cereal crops

Wheat, barley and oats were grown. A binder cut the crop and then, with an ingenious knotter, bound the cut material in sheaves which were discharged to one side. The sheaves were then picked up, walking along the rows lifting up two sheaves and standing them on end leaning against each other so that they stayed upright with the grain at the top,

grain at the top, then putting two further pairs on each side so that they leaned onto the first two sheaves to steady the stook. This six sheath stook was used for oats and barley. For wheat, 8 sheaves were used for the stook, I cannot recall the reason for this difference, whether it was due to wheat being taller and stiffer and possibly stacking better I can only guess. The sheaves from the stooks were pitched onto a cart by hand or using pikels (pitchforks) especially when the load became higher, Tecwyn or William Owen would be on the cart to load the sheaves systematically so that the load was not shed as the cart moved. More hands were helpful to assist with loading sheaves and leading the horse or driving the tractor. As the cart moved between each stop after nearby sheaves were loaded, a warning "Hendiwch" ("Look out") was shouted to the loader on the cart.

When full the cart was taken to the stack yard next to the barn and granary, where the sheaves were unloaded to build a stack which required careful laying to ensure its stability. The sheaves, as in loading the cart, were laid with the cut end out, as this was larger than the grain end so the sheaves sloped inward to help stability and also the grain was not on the outside of the stack to protect it from rain.

In late summer / early autumn a contractor, usually Lloyd who was Aunty Mary's nephew, arrived with a Fowler Marshall tractor with single cylinder, 6 litre diesel engine towing a threshing machine which was parked near the stack. The tractor, which was dark green and had a prominent vertical exhaust about 8-9 ins diameter and a large flywheel, was then lined up so that it could use a belt drive from its pulley to power the thresher. Starting the tractor was an exciting operation as the cylinder had two ports, in one of which a lighted wick was inserted and in the other a blank 12 bore cartridge. The cartridge was then hit with a hammer and the explosion turned the piston and the lighted wick lit the fuel drawn into the cylinder and usually the engine started with a very distinctive deep booming noise with a characteristic slow repetition.

Threshing the stack required one person on top of the thresher to feed the sheaves into the thresher after cutting the twine, one or two people on the stack to throw sheaves onto the thresher. also someone on the ground to attach a sack onto the back of the thresher under the grain outlet shoot and change it when full. These sacks weighed a hundredweight when full and needed considerable strength to lift or carry up the granary steps. The straw which was also discharged had to be made into a stack for stock bedding. Over winter the cattle were kept in the shippon and the bedding straw had to be changed regularly, it contained the cow dung and urine and this was wheelbarrowed to a nearby midden which eventually was spread on the land. There was little liquid effluent from the midden unlike the quantities of liquid slurry produced from silage fed cows.



Fig 9, Fig 10  
Fig11

**Dyma ddiwedd atgofion Dr Gareth Howells yn Glas. Mae gweddill yr hanes diddorol hwn yn ei gyfarwydd i'w weld trwy'r ddolen hon: [Dolen](#). Cliciwch!**

## Y defnydd a wnai William Bulkeley o dywod ar ei fferm yn y Brynndu, Llanfechell, Môn.

Wrth chwilio drwy ddyddiaduron William Bulkeley deuthum ar draws 104 o gyfeiriadau at ddefnyddio tywod. Ceir cyfeiriadau eraill at dywod ond mewn cyd destun gwahanol, er enghraifft, rhaffau "sand rush" neu gerdded ar "y tywod". Mae'r 104 o gyfeiriadau yn cyfeirio yn uniongyrchol at y weithred o symud tywod neu ar gyfer ei ddefnyddio ar y tir. Mae'n amlwg bod William Bulkeley ac eraill wedi sylweddoli bod modd defnyddio tywod er mwyn gwrteithio a gwella ansawdd y pridd ar gyfer tyfu cnydau.

Ceir y cyfeiriad cyntaf yn y dyddiaduron ym 1734 gan awgrymu nad oedd y perchennog blaenorol yn arfer gwasgaru tywod ar y tir.

■ **"manureing with Sand this Summer 30 yards of ground. which Mr. Wynne never did when he lived here,"**

Gorff 1 1734

Mae'r awgrymiad yma bod yr arfer o wasgaru tywod ar y tir yn rhan o gytundeb gosod tir ac eiddo. Ym mis Tachwedd 1734 ceir y cyfeiriad yma:

■ **"John Thomas of Olgre isaf took Bodneva for 7 years at the rate of 24l [l = £] a year, to be allowed 6l ye first year for Sand, & so to put upon it the year he parts 500 loads of Sand"**

Tach 6 1734

Ceir cyfeiriadau tebyg yn ddiweddarach:

■ **"To day I Set Clygyrog ucha to Edmund Hughes of Llanddygwel yt. lives now at Trogog for ye term of Eleven years, to comence at allsaints 1738. at ye Rent of 13L. 10s. to allow ye Land tax if he pays by a Month in Winter to lay upon ye farm 600 bags of Sand ye next Sumer & to pay for 600 bags more ye next Sumer following to be left at Cemaes, ye greater parts he is to lay 200 bags on ye Sd farm."**

Mehefin 16 1737

■ **"Set to day the farm of Clygyrog ucha to William Owen of Pentraeth Taylor & his Brother for the term of Seven years to comence at Allsts. next at the Rent of fourteen pounds, allowing the Land Tax if they pay by St. Machute's day, I am to give them 1000 measures of Red Wharf sand at Cemaes this Sumer"**

Ebrill 9 1740

Mae'n ymddangos fod y gwaith o gludo'r tywod yn dipyn o dasg, gyda cheffylau a dynion yn cael eu defnyddio am rai dyddiau ar y tro yn y gwaith:

■ **"The Wind E. fair & pleasant weather, my Sand Horses haveing a little respite every Thursday in the Week, my Servants carry gorse home with fresh horses delivered"**

Medi 29 1737

■ **"giveing the horses that were carrying Sand a little rest 2 days a week."**

Hydref 9 1740

■ **"my people to day finished carrying the Sand, haveing carryed in all this year upon my own Horses, by my own Servants 3720 Bags"**

Hydref 22 1736

Mae'n ymddangos bod y tywod yn cael ei gludo o'r llong(au) neu gwch(gychod) mewn bagiau fel y dengys y cyfeiriad blaenorol. Ceir dau gyfeiriad at brynu defnydd i wneud bagiau tywod:

■ **"pd. 5s. 6d. for 8 yards of cloath to make sand bags."**

Mai 25 1751

■ **"pd. likewise 4s. i0d. for 7 yards, a quarter & half a quarter of cloath to make Sand bags"**

Mehefin 6 1751

Mae'n weddol amlwg mai ar gyfer gwella ansawdd y tir (gweler hefyd uchod ar gyfer Gorff 1 1734, 'manuring') y defnyddiwyd y tywod a diddorol yw'r cyfeiriad at "my Compost Sand" ym 1737:

■ **"to day I begin to carry home my Compost Sand from Cemaes upon Farm land haveing 10 horses a carrying"**

Medi 17 1737


Tybed ai cario mewn pynnau o boptu pob ceffyl oedd y drefn ynteu mewn tro[iau?]:

■ **"Two of my people are these days carrying of Cemaes Sand, (but taken up from under the Sea) and laying it on that part of Cae'r Sgubor Goedan that is steep, high & gravelly at ye North End of ye Barn "**

Hydref 12 1751

Diddorol hefyd yw' cyfeiriad at "taken up from under the Sea" tybed sut yn union roeddynt yn codi'r tywod o'r môr?

Ceir cyfeiriadau mynych at "Red Wharf" a "Cemaes" [Cemaes heddiw]. Mae'n swnio fel bod tywod yn cael ei gludo o'r Traeth Coch mewn llong neu gwch i Gemaes cyn cael ei ddadlwytho yno. Mae rhai cyfeiriadau hefyd yn awgrymu mai tywod Cemaes sy'n cael ei ddefnyddio.



O'r graff uchod gellir gweld bod y blynyddoedd 1736/1737/1751/1752 a 1753 wedi bod yn brysur o ran cludo a gwasgaru'r tywod ar y tir. Ym 1737, mis Hydref oedd y mis prysuraf, ond ym 1751/52 a 53, mis Mehefin oedd y mis prysur. Prin iawn oedd y cyfeiriadau ym 1742, un cyfeiriad, a 1743, dau gyfeiriad. Sylwer bod bwllch heb yr un cyfeiriad rhwng 1743 ac 1751.

**Doedd dim elfennau cyson o dywydd da na drwg yng nghronicl Kington, 2010 (Climate and Weather, Collins) i'r cyfnodau hyn.**

Anodd gwybod beth yn union oedd pris tywod yn ystod y cyfnod oherwydd y cyfeirir at wahanol fesuriadau a 'does wybod beth yn union oedd maint y cwch neu long oedd yn cael ei ddadlwytho. Fe rydd y cofnodion isod rhyw amcan i ni o'r pris roedd yn ei dalu.

■ **"Paid Owen Hughes one of the Men that manages Mr. Rowlands of Porth Ilandy's Ship 2 pounds fifteen shillings for two loads of Red Wharf Sand."**

Mehefin 11 1751

■ **"Pd. il.(£1) 7s. for a Boat load of Red Wharf Sand"**

Mai 31 1752

■ **"Paid Robert Hughes the Master of a Sloop from Conway 3L. 3s. for 3 ship loads of Red Wharf Sand containing Six of the long hundreds and 3 quarters of a hundred:"**

Mehefin 5 1752

**Mae'n wir ddiddorol mynd ar drywydd y cyfeiriadau at dywod a cheisio dirnad pa mor bwysig oedd cael tywod ar y tir a chymaint o dasg oedd ei gludo a'i wasgaru i'r llafurwyr a'r cheffylau. DL**

## Brynfrigo ar yr Eliffant

Llwyth o 'St Mark's flies' ar yr Eliffant [Mynydd Mawr, 31 Awst 2022]... meddwl eu bod nhw allan o dymor.

Wil Williams

Mi dynnodd Gwenllian (nith Wil) lun o un ohonynt:

*Bibio marki* sydd yn hedfan ym mis Mai. Ond mae yna *Bibios* eraill yma, a dros y byd. Mae un efo coesau cochfrown (i'w gweld yn llun Gwenllian) sydd yn hedfan yn hwyrach. Mae nhw i gyd yn dangos deuffurfiaeth rhywiol (*sexual dimorphism*) – y gyrwod efo llygaid mawr a'r benywod â llygaid bach (gwryw sydd yn llun Gwenllian). Mae nhw fel teulu o bryfed (y *Bibionidae*) yn ffurfio heidiau gyrywol (*male swarms*) ac efallai dyna be welodd Wil a Gwenllian. Ond mae yna bosibiliad arall, sef 'brynfrigo', arferiad llawer o bryfed mewn tywydd braf i godi i gopaon yn bryniau.



Dymaisod bâr o bryfed Sant Marc yn paru (y gwryw ar y dde) wedi ei dynnu yn y Glasgoed, Llanelwy gan Alun Williams ar 10 Mai 2021. Mae rhai aelodau'r teulu yn yr UD yn cael eu galw yn pryfed cariad (*love bugs*) am iddynt fod yn sownd am hir iawn wrth gyplu. Y rheswm am hyn yw bod y gwryw yn amddiffyn ei had rhag cael ei ddisodli gan wryw arall.



Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!



Cysylltwch gyda ni: [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)

## Bywyd môr o gerrigos y traethau

Gwerth ei rannu (o *Wilderness Food FB*)

*More unreal work by Beach4Art, made from stones on a Devon beach, [Medi eleni].*

Gwirioni ar 'lليw' gwahanol bacciau'r ddwy goes - un mewn cysgod a'r llall yn y goleuni:



Ysbrydolodd y llun lun arall (dyna ydi gogoniant rhannu ynte). Cafodd ei dynnu gan Gillian Griffiths ar draeth Bae Oxwich. Dyma fo:



## Y Mis Yma mewn Hanes

### Dyddiadur DO Jones

Bugeilio, hel defaid yn y Mynydd a'u marcio. Mynd i Farchnad Llanrwst, gwerthu 7 dwsin o wyau am 3/3 y dwsin, tri cwpl o geiliogod 21 pwys, 7/3 am y cwpl. Torri brwyn yn y Wern Uchaf. Mynd i Sbyty gyda'r nos i ymarfer hefo'r Home Guard. Golau lleud braf.


15/10/1940- Ty Uchaf, Padog

# Dyddiau'r Cŵn

## Ddoe...



Llyn Celyn yn sychder 1995



Cymhariaeth efo "Dyddiau Cwn" 1976  
Cymuned Llên Natur: Mehefin 2021



Llyn Celyn: Y sychder yn yr 80au  
Llun Cindy Ellis

What do we know about historic droughts?

Major Droughts	Start month	End month
(The Long Drought) 1890-1910	1890-Jan	1910-Dec
1921-1922	1920-Sep	1922-Mar
1933-1934	1932-Sep	1934-Nov
1959	1958-Feb	1959-Nov
1976	1975-May	1976-Aug
1990-1992	1990-Mar	1992-Aug
1995-1997	1995-Mar	1997-Aug
*2004-2006	2004-Feb	2006-Oct
*2010-2012	2010-Jan	2012-Mar



Cofio sychder 1976  
23 Mehefin - 27 Awst



Cofiwch Dryweryn:  
sychder mawr 1989



Dadsefydlogi'r hinsawdd  
yn achosi sychder yn Llydaw  
(Ebrill 2020)

y dolenni  
i gyd



Effaith sychder ar Forta Dimlle  
19 Gorffennaf 2019



'Creithiau Tryweryn'  
29 Medi 2018

## ... heddiw



4 AWST 2018

13 AWST 2022

Llyn Celyn: Cymhariaeth  
Awst 2018 a 2022



It's the latest in a swathe of wildfires in London and nearby areas after record temperatures left the ground bone dry



Surrey's fire service declared a major incident as its crews battled this blaze on Hankley Common



Tŷn yn Hayes  
Gorllewin Llundain



Y sychder yn parhau  
BBC - 9 Medi 2022

Llyn Aled Isaf  
Llansannan, 29 Gorffennaf



Cofw'n Dryweryn:  
Wales Online  
Gorffennaf 2022

**Deuthum ar draws hen lyfr cofnodion, ('copi bwc') yn ddiweddar wedi ei ysgrifennu gan fy ewythr Robert Owen Pritchard, (Bob Plas Isa. Betws Garmon gynt). Yn y 'copi bwc' mae Bob wedi cofnodi rhestr am y gwahanol mathau o feddyginiaeth fyddai'r hen bobl, ac yn enwedig y ffermwyr yn ymwneud a hwy ers talwm.** Gwilym Morris Jones

Mi fydd yn ddiddorol cymharu rhain i weld os ydyn nhw'n cydfynd a meddyginiaethau eraill ardal Arfon ([www.mapiau.llennatur.com](http://www.mapiau.llennatur.com)), neu eu gwirio i weld a ydy rhai ohonyn nhw (y cwrlid er enghraifft?) wedi eu codi o lyfr safonol. Golygydd

**1 At wella dwr poeth, (heartburn):** Bwyta blaen dail Rhosyn Gwyllt a phennau'r blodau cyn iddynt agor, a'u cnoi yn fân neu eu cnoi i ddim a'u llyncu.

**2 Gwella annwyd:** Peint o laeth enwyn a llond llwy o driagl du ynddo a'i yfed yn boeth.

**3 Peswch, neu bysychu diddiwedd:** Rhoi dau beint o laeth enwyn ar y tân a'i ferwi lawr i beint a thra bydd yn berwi rhoi tua pwys o siwgr ynddo fesul llond llwy nes y bydd wedi dod yn glir ac yn denau a'i yfed cyn mynd i'r gwely.

**4 Gwella dolur ar wefysau:** Dal llond llwy o fenyn a halen ynddo ar fon [ffon? gwr.] y grât nes iddo ferwi a mynd ynfrown ei liw. Wedi iddo oeri digon, ei roi ar y gwefysau.

**5 Croen yn torri ar dywydd caled:** Brasder oen a'i rwbio ar y lle poenus, neu lard wedi ei gymysgu â bicarbonad o soda i wneud eli a'i rwbio ar y llosg.

**6 Briw yn casglu:** Rhwbio menyngwyrdd wedi bod ar bared am bythefnos neu, lwydni oddi ar wyneb pot llaeth.

**7 Llosg tân:** Rhoi dŵr carreg galch a saim gwydd mewn potel â'i ysgwyd yn dda nes idd ffrthio. Yna ei roi ar y croen anafus.

**8 Gwella pendduyn ar groen:** Heliwch ddail lloriau a'u curo nes eu bod yn bâst a dal i'w roi fel bydd yn sychu. Yna eu golchi â dŵr cynnes a dal i wneud nes cei'r gwared a'r pendduynod. Hefyd, gellir gwneud eli o groen ysgaw at yr un peth.

**9 Poen yn y cefn:** Heliwch ysgub o lysiau'r dryw, (agrimony) a'i gynhaeafu, rhoi'r dail mewn jwg a dŵr berwedig arno a'i yfed wedi iddo oeri. Gallaf dystio i rinweddau y ddiod yma. Rwyf wedi yfed digon ohonno at wella ysgot. Berwch fanad a chyda'r trwyth baddo yr ysgigiad mor boeth ac y gellwch ei ddioddef.

**10 Gwella pyrsau a tethi gwartheg dolurus:** Dau ddyrnaid o chwerw lysiau yr eithing (*wild sage*) a'i gollwng i siwat yn berwi mewn llestr pridd. Yna ei hidlo i bot hwylus a'i ddefnyddio wedi iddo oeri.

**11 Gewin yn tyfu i'r byw:** Rhowch sleisen o fustl mochyn a hwnnw wedi sefyll nes bod modd ei sleisio. Rhowch hwn ar y lle poenus at dorri poen mewn troed neu law. Pe bai rhywbeth wedi syrthio arnynt ac wedi cleisio, chwiliwch am afalau wedi llygru ac wedi mynd sitrws a rhowch drwch ar y man poenus ac fe dorrai'r gwaew.

**12 Gwella mân ddefaid ar y dwylo:** Torrwch goes Mantell y Frenhines a rhoi y sudd ar y ddafaden. Hefyd golchwch y ddafad mewn dŵr yn y llyn a welwch ar ben biswail buwch amser adladd, neu os gwyddoch am hen foncyff a thwll ynddo a dŵr yn sefyll ynddo, ewch yno i'w golchi.

**13 Arbed gwaed neu ddu'r gewynnau:** Chwiliwch am goden fwg a gwasgwch hi nes bydd y mwg neu'r llwch yn mynd ar y gwaed.

**14 Defaid yn colli eu golwg:** Pan fydd defaid yn colli eu golwg a'u llygad yn troi yn llwyd, malwch llechen yn llwch yna ei chymysgu â siwgr mân a'i roi yn y llygad. Fe gliria'r drwg ymhen diwrnod neu ddau.

**15 Defaid yn ysgothi yn y gwanwyn:** Darn fel bawd o floneg mochyn, neu lond llwy o baraffin lamp a'i wthio lawr y corn gwddw.

**16 Cŵn bach:** Os bydd cŵn bach ychydig ddyddiau oed, rhowch licris wedi ei bowdro mewn llefrith cynnes a phinsiad o 'Bicarbonate of Soda' ynddo ac fe aiff yr asid neu'r surni o laeth y fam.

**17 Anhwylder ar yr ystumog:** Cof gennyf fel byddai fy nhad yn cadw cig iddew ac y byddai'n rhoi peth ar bit y ceffyl wedi ei rwymo mewn gwlanen a'i glymu am y bit. Stwff oedd hwn i godi stumog ceffyl yn yr un modd yr arferiad o roi asiffeta i blant.

**18 Gweld ceffyl:** Byddai certmon os byddai ei feistr yn disgwyl porthmon i ddod i weld ceffyl i geisio ei brynu yn aml wedi gwneud powdwr i wneud y ceffyl ddangos ei hun a phrancio fel oen. Y ffordd o wneud y powdwr oedd cael tipyn o frigau Ywen. Nid yr un gyffredin, ond y 'Ffin Yew', ei roi yn y popty a'i grasu. Yna powdro y dail yn llwch a'i gadw mewn potel a rhoi peth yn ffid i'r ceffyl cyn i'r porthmon gyrraedd.

**19 Te ffa corsydd:** I wneud diod llesol i'w yfed ar dywydd poeth, dynaid o'r goesgoch, run fath o ddail poethion, a blodau Brenhines y Weirglodd wedi eu mwyo mewn dŵr poeth.

**20 Poen yn y bol:** I dorri poen yn y bol, rhowch halen ar fadarch nes daw dŵr du allan ohono. Yna yfed peth o hwnnw. (Llond llwy de yn ddigon)

**21 Poen crydcymalau:** Rhowch finegr ar bapur llwyd nes ei drwytho a'i roi ar y boen. Yna, rhoi gwlanen goch dros y cwbl ac yna cymryd haearn smwddio nes bydd y claf wedi cynhesu drwyddo.

**22 Cegid. (Hemlock):** Ni chlywais erioed am wneud dim efo cegiden fel ffig. Ond byddai'n cael ei ddefnyddio i wneud powltis at draed gwartheg yn dioddef o'r llaig.

**23 Yr eryr:** Dull o wella yr eryr heb eli fyddai cael un oedd wedi dysgu'r grefft o "chwythu'r eryr," sef gwneud siap ei geg i chwythu yn fain ac yn oer. Clywais am un yn cael ei alw yn "Ifan Gwynt Oer." Dyna ei flas enw.

**24 Colic dŵr:** Bwyta clamp o feipen amrwd a dal i wneud hyn nes esmwytha'r gnofa.

**25 Mochyn wedi rhwymo:** At wella mochyn wedi ei rhwymo, ei ddychryn yn iawn a chyn pen ychydig byddai ei anhwylder wedi gwella.

**26 Llyngyr:** At llyngyr mewn ceffyl, malu rhawn yn fân hefo siswrn a'i roi iddo mewn triagl du a bran a bydd yn ei fwyta'n awchus.

**27 Prynu buwch:** Os bydd amaethwr yn prynu buwch a dod a hi adref, rhaid fydd iddo ei chadw ar ei phen ei hun neu bydd y fuches wedi troi arni a'i chornio a hwyrach gwneud niwed iddi. Os yn bwriadu prynu buwch ac arbed hyn ddigwydd, cadwch olch, (pi-pi) mewn hen lestr nes iddo suro a dal i roi chwaneg ynddo nes bydd yn lifo dros yr ymyl. Wedi i'r fuwch newydd gyrraedd, rhowch gadach ar flaen ffon a'i rwymo i'w ddefnyddio fel mop. Rhowch hwn yn y golch sur ac yna ei roi ar hyd y fuwch newydd drosti. Yna ei throi i'r cae at y gwartheg. Deuai rhain yn ar unwaith i gael ymrafael â'r ymwelydd, ond dim nes na dwy lath cyn troi yn ôl a chadw yn ddigon pell oddiwrth'i. Erbyn bydd yr arogl wedi mynd bydd wedi cael ei derbyn gan y gweddill.

**28 Cefais yr hanes canlynol gan y diweddar M. H. Jones, Hendy, Caernarfon:** Os byddai amaethwr mor anffodus ac i'r clwy erthylu ddod i'r fuches a'r fuwch wedi taflu ei llo, yna fe gladdwyd yr erthyl o dan ben ei fam, sef gwneud twll o dan y preseb, ac wedyn claddu a'i gau yn ôl a'i balmentu. Roedd hyn yn cael rhyw effaith tebyg i frechiad. Heddiw mae'r S.19 yn cael ei roi i'r lloi. Erbyn hyn mae erthylu heintus bron wedi ei feistroli ac wedi ei yrru bron o'r tir.

**29 Olew:** Yn yr amser a aeth heibio roedd bri mawr ar olew Morris Evans. Dyma'r olew at bob anhwydebar ar ddydd neu anifail. Roedd yn rhagorol at bob math o friwiau, ac yn neilltuol pan fyddai'r ŵyn oedd yn sugno yn cael eu poeni gan ddrogod. Wedi rhoi llong Llwyd i'r oen, byddai'r drogod wedi syrthio a hynny cyn nos drannoeth. Cofiaf yn dda y pleser a gawn o ddarllen yr hysbysiadau yn yr Almanac Caerdybi ac am y gwyrthiau roedd yr olew wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn. Byddai'n werth cael ambell lyfryn ceiniog pe tae ond i weld yr 'adverts' â'r 'testimonials', e.g. Davies Machynlleth yn hysbysebu 'Molrat' i'r twrch daear. "Ni chododd y twrch mwy!" Roedd fel dihareb bron.

**30 Olew malwod:** Roedd olew wedi ei wneud o, "chwys traed malwod" yn beth da at rwbio ar goesau ceffylau at eu ystytho â gwella craciau doster, (chwydd dŵr mewn ceffylau) neu goes fawr. Y ffordd i'w gael fyddai mynd a draenen wen a'i sticio i'r falwen a'i chodi i botyn neu lestr. Wedi pigo'r falwen byddai hylif yn rhedeg allan ohoni a'r gwlyb yma oedd yr "Olew traed malwod".

**31 Llin y Mynydd:** Adeg cynhaeaf gwair byddem yn casglu Llin y Mynydd i wneud ffisig at wella rhyddni ar blant. Ei sychu a'i gadw mewn bag papur ac yna rhoi peth ohono mewn jwg a dŵr berwedig ynddo a'i adael i oeri. Byddai wedyn yn barod i'w yfed.

**32 Cwrlid:** Mewn ambell i fan mewn tir sâl â gwlyb tyfai 'cwrlid'. Mae digon o'honno yn tyfu ar Afon Dwyfach ychydig is lawr a Melin Llecheiddor. Torrwyd y cwrlid a'i roi i sychu dan y gwely a byddai arogl nid anhwyryd yn codi ohono. Fel y sychai, byddai'r holl chwain yn ymadael a'r tŷ ar unwaith. Roedd hefyd yn beth da i wneud gwelyau i'r cŵn. Byddai yr un ci i'w weld yn chweina wedyn.

**33 Blewyn di-raen:** Erstalwm, os byddai ci a'i flewyn yn ddi-raen, mynd at y drygist a gofyn am greuon ci. Yna ei gratio i lefrith a'i roi i'r ci a byddai wedi cael 'madael a'r holl lyngar fyddai yn ei boeni cyn y bore. Peth arall fyddai gwrthio pin nionyn, (*shallot*) dros ei lwnc a byddai hynny yn effeithiol iawn.


**34 Difa llygod:** I wneud peth i ddifa llygod bach neu mawr, ffrio corcyn mewn saim a'i adael yn rhywle i'r llygod ei fwyta. Hefyd, cymysgu blawd ceirch â 'Plaster of Paris' a'i adael mewn lle hwylus i'r llygod gyda dysglaid o ddŵr yn ei ymyl. Dull hen ffasiwn i ddal llygod mawr fyddai rhoi hanner llong casgen o ddŵr a rhoi eislin sil i guddio yr wyneb. Wedyn rhoi baten wedi ei thafoli at bwysau'r llygoden a thamaid blasus wedi ei roi ar ei blaen odditani. Wrth i'r llygoden fynd at y tamaid, yna tripiar'r faten ac i'r dŵr a hi.

Yna dychwelai'r faten yn ôl i fyny barod am yr un nesaf. Hefyd gyda ychydig o drafferth, ceid trap yn gweithio yn dda ac yn ail osod ei hun. I ddal llygod bach, cael plât a phowlen â gwniadur. Rhoi caws i mewn yn y gwniadur a'i galedu fel na ddeuai allan yn hawdd. Wedyn rhoi'r bowlen ar ei gwyneb ar y plât a rhoi'r gwniadur i'w chynnal gyda'r pen yn agored at ganol y plât. Wrth i'r llygoden grafu'r caws fe dynnai'r bowlen drosti. Wedyn rhoi'r cwbl mewn llong bwced o ddŵr.


**35 Ffisig Margiad:** Byddai hogia'r Garn, (Dolbenmaen) yn sôn am roi "Ffisig Margiad" ac mi roedd hwnnw yn cael ei roi i blant drwg yn aml. Wel "Ffisig Margiad" oedd rhoi coblyn o gweir neu chwip-din iddynt.

Robert Owen Pritchard (Bob Plas) 1904-1979


Ni newidid llawer ar y gwreiddiol er mwyn cadw iaith yr oes



Llyfr Ann Elizabeth Williams



Gwefan: Mapiau Llên Natur



Mae eleni yn wahanol...

Wrth baratoi at daith Cymdeithas Edward Llwyd mae rhywun angen gwneud y daith o flaen llaw er mwyn sicrhau nad oes problemau. Bydd y daith byddaf yn arwain ar 1 Hydref 2022 gwneud i mi fynd yna rhyw ddwy waith.

Dwi wedi arfer mynd i chwilio am fadarch gwyllt ers blyneddodded. 'Dwi erioed wedi gweld cymaint o wicsenau crynion -*Boletus edulis* (penny buns)- o gwmpas, a hynny dwy waith yn olynol (lluniau). I mi, mae'n debyg mai tywydd eithriadol o sych yr haf 'ma sydd tu cefn i'r casgliadau anhygoel o wicsenau crynion a rhai boledau eraill eleni.



22 Medi 2022



28 Medi 2022

Doeddwn i ddim wedi rhagweld problemau pan es i yna ar 22 Medi, ond mae un o'r llwybrau cyhoeddus wedi cau yn llwyr oherwydd gwaith torri coed sylweddol.

Roeddwn i'n awyddus i fynd i weld un o lefydd allweddol y daith a sylwi bod gwaith coed wedi digwydd mewn un o ardaloedd y wicsen gron - Ges i fy siomi'n arw - cafodd y lle ei sathru'n llwyr. Nid yw'n gwneud synnwyr fynd yna eto. Wedi dweud hynny bydd yn ddiddorol gweld faint o amser, faint o flynyddoedd, bydd myseliwm yr hen foledau angen i ddod yn ei ôl.

Newyddion da i orffen: mae'r boled penlas (*Gyroporus cyanescens*) yna eleni eto (3 record ar gyfer Cymru!).

Dominic Kervegant



Boled penlas *Gyroporus cyanescens*



Adnodd i blant, athrawon a rhieni



1

### Llinos werdd

Dyma aderyn gwyrdd mewn gwirionedd, ond mae'r iâr yn llwytach na'r ceiliog. Mae'r cywion yn fwy brown a rhesi tywyllach drostynt. Ei fwyd yw yd, a hadau llu o blanhigion, aeron a blagur coed ffrwythau.

hadau llu o blanhigion, aeron a blagur coed ffrwythau.



4

### Ji-binc

Yn hoffi coedydd, gwrychoedd, llwyni a gerddi. Dydi'r iâr lwydaidd ddim mor hardd â'r ceiliog lliwgar.

Yn hoffi bwyta pryfed a lindys, ffrwythau a blagur. Enwau eraill yw Asgell fraith a Binc.



2

### Pila gwyrdd

Aderyn bychan a chanddo big fain a chynffon fforchog, sy'n hoffi bwydo ar gnau mwnci wedi eu gosod yn yr ardd.

Mae'r ceiliog yn

felynwyrdd â sribynnau ysgafn ar ei gefn, cap a bib du. Ei big yn fain a miniog.



5

### Jac-y-do

Brân fach lwyd a chanddi gap tywyll, pig fer ac adenydd crwn a llygaid golau. Mae ei hwyneb yn dywyll, ei chorun yn ddu, ei bochau, ei gwar a'i bol yn llwyd olau. Mae'n sefyll yn dalsyth heblaw pan mae'n bwydo.



3

### Dryw

Aderyn bach crwn a'i gynffon bwt i fyny. Does dim gwahaniaeth rhwng y ceiliog a'r iâr, ond mae mwy o frychni ar y cywion a llai o

resi ar eu plu. Yn chwilotwr am fwyd heb ei fath, ond yr hyn mae'n ei hoffi yw pryfed, copynnod, lindys a hadau mân. Ei gynefin – gerddi, gwrychoedd.



6

### Gnocell fraith fwyaf

Mae'n byw mewn coedwigoedd neu gymysgedd o goed a chaeau. Du a gwyn yw'r rhan fwyaf o'r plu, ond mae gan y ceiliog ddarn coch ar y gwegil tra bod pen yr iar yn ddu a gwyn i gyd. Aderyn ieuanc sydd yn y llun, yn dangos y coch ar gefn ei ben sy'n nodweddiadol o adar yn eu blwyddyn gyntaf, sy'n absennol yn y Gnocell fraith leiaf, a'r gwahaniaeth mawr mewn maint.

Pryd?	Lle?	Pwynt	Pryd?	Lle?	Pwynt
1		10	4		15
2		20	5		20
3		15	6		10

Mae CYHOEDDIADAU (ar y wefan) yn gronfa o holl ôl-rifynnau'r Bwletin (Glas erbyn hyn) a phosteri sydd yma. Gellir eu chwilio gydag un chwilair. Cyfraniad Gareth Pritchard yw'r poster i am adar.

CLICIWCH!

Cyhoeddiadau   
Bwletinau Poster i